CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Gofalu yn Wrecsam

# Microfentrau Cymunedol;

# Y daith hyd yn hyn

### Asesiad o effaith Catalyddion Cymunedol

Tachwedd 2022


## Cysylltwch â ni

Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

Cyfeiriad: Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

E-bost: northwalescollaborative@denbighshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 712622

# Cynnwys

Crynodeb .......... 3
Rhagarweiniad .......... 4
Dulliau .......... 4
Cefndir .......... 5
Faint? .......... 8
Pa mor dda? .......... 10
A ydym ni wedi gwneud gwahaniaeth? .......... 15
Pa effaith mae microfentrau cymunedol wedi ei gael ar unigolion .......... 15
Pa effaith mae Catalyddion Cymunedol wedi ei gael ar ficrofentrau cymunedol? .......... 18
A yw'r canlyniadau a amlinellir yn y contract wedi eu cyflawni? .......... 18

## Crynodeb

Rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2022;

- Roedd cyfanswm o **53** o ficrofentrau cymunedol wedi eu sefydlu a **61** o swyddi wedi eu creu
- Derbyniodd **248** o unigolion ofal gan ficrofenter gymunedol.
- Derbyniodd **50%** o unigolion wasanaethau gofal personol.
- Cynigiodd **55%** o ficrofentrau cymunedol gefnogaeth hyblyg arall gan alluogi pobl i fyw'n annibynnol gartref ac ymgysylltu gyda'u cymuned leol.
- Ym Medi darparwyd **842** awr o ofal personol gan ficrofentrau bob wythnos yn Wrecsam.

Rhwng 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022;

- dewisodd **26%** o'r holl gwsmeriaid a oedd yn derbyn Taliadau Uniongyrchol gan CBSW wario eu harian ar gefnogaeth gan ficrofenter
- talwyd am **39%** o gyfanswm yr incwm a wnaed gan ficrofentrau yn Wrecsam o Daliadau Uniongyrchol
- cafodd **35%** o gyfanswm y gwariant drwy Daliadau Uniongyrchol ei wario ar gefnogaeth microfenter y llynedd.
- Roedd microfentrau yn cyfrif am **5%** o ofal cartref a gomisiynwyd yn Wrecsam
- Mae **100%** o'r unigolion a gefnogwyd gan ficrofenter yn teimlo yr un fath neu'n well ynglŷn â'r unigolyn sy'n eu cefnogi, o'i gymharu â gofalwyr eraill sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol.

Yn 2022/23 amcangyfrifir y bydd **£500,000** yn cael ei wario ar ofal a ddarperir gan ficrofentrau cymunedol yn Wrecsam.

# Rhagarweiniad

Mae Catalyddion Cymunedol yn fenter gymdeithasol sy'n gweithio ar hyd a lled Cymru a'r DU i helpu i ehangu'r cynnig o ofal a chymorth i unigolion i fyw'n annibynnol gartref ac o fewn eu cymunedau lleol. Maent wedi eu comisiynu ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'r Bwrdd Iechyd i gefnogi pobl i sefydlu fel 'microfentrau cymunedol', busnesau bach yn amrywio o unig fasnachwyr i fusnesau sy'n cyflogi wyth o bobl sy'n cynnig gofal hyblyg ac wedi ei bersonoli a gwasanaethau cefnogi i bobl hŷn, pobl sy'n byw gydag anableddau, pobl sy'n profi iechyd meddwl gwael a gofalwyr.  Bwriad y gwasanaethau a gynigir yw ehangu'r cynnig gofal presennol gan yr awdurdod lleol, darparwyr annibynnol a'r trydydd sector.

Mae yna angen i ddatblygu dulliau newydd ac arloesol o ddarparu gofal a chefnogaeth i fodloni anghenion gofal cynyddol y boblogaeth sy'n byw gartref, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig lle mae'r galw am wasanaethau'n uchel. Mae'r farchnad gofal cymdeithasol yn wynebu heriau sylweddol o ran recriwtio sy'n arwain at gyfnod hir o aros i unigolion sydd angen gofal gartref. Mae Catalyddion Cymunedol wedi eu comisiynu i helpu i greu marchnadoedd cymunedol gwydn, yn ogystal â chynnig y gallu i unigolion i gynnal lles a chael mynediad at eu cymuned a'u cyfoedion; gan leihau'r galw ar wasanaethau gofal cartref a phreswyl Wrecsam.

## Dulliau

Fe wnaed yr adroddiad hwn gan y Canolbwynt Cydlynu Ymchwil Arloesi, tîm o arbenigwyr sy'n gweithio i gydlynu ac adolygu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol integredig seiliedig ar dystiolaeth yng Ngogledd Cymru. Mae'r tîm yn cefnogi gwerthuso prosiectau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (cyn hynny y Gronfa Gofal Integredig)  Fe fu cynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol o Gatalyddion Cymunedol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) yn cyfarfod y Canolbwynt Cydlynu Ymchwil Arloesi i drafod y cwmpas a diben yr adroddiad a chytunwyd ar dri o gwestiynau allweddol;

- Faint o gynnydd sydd wedi ei wneud mewn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd?
- A oes yna effeithiau anfwriadol?
- Beth a ddysgwyd ar hyd y ffordd?

Mae'r Canolbwynt Cydlynu Ymchwil Arloesi wedi cynnal yr ymarfer gan ddefnyddio'r adnoddau canlynol a chanllawiau;

- Egwyddorion Social Value UK
- Canlyniadau'n Cyfrif
- Y Rhestr Gofal Cymunedol sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (PERCCI)
- Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP) dulliau adrodd straeon

Fe wnaed yr asesiad drwy adolygu;

- tystiolaeth ansoddol a meintiol a gyflwynwyd gan Gatalyddion Cymunedol a CBSW
- Data ansoddol o weithdy adrodd straeon gyda microfentrau
- Presenoldeb mewn dau grŵp rhyngweithio (wyneb yn wyneb yn y Waun a Wrecsam)
- Presenoldeb mewn un grŵp rhyngweithio ar-lein.
- Canlyniadau arolwg annibynnol gan y Canolbwynt Cydlynu Ymchwil Arloesi a anfonwyd i unigolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol

## Cefndir:

### Ynglŷn â Chatalyddion Cymunedol

Mae Catalyddion Cymunedol yn helpu pobl i ddod o hyd i ddulliau o fynd i'r afael â iechyd a gofal sy'n rhoi pobl o flaen systemau. Maent yn cynnig cyfleoedd dysgu hygyrch ac atyniadol ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd neu wasanaethau gofal. Mae eu rhaglenni datblygu personol yn canolbwyntio'n gryf ar gryfderau pobl, gan adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda. Maent yn helpu pobl i ddefnyddio eu talentau i gychwyn a rhedeg mentrau bach a busnesau cymunedol sy'n cefnogi ac yn gofalu am bobl leol eraill. Mae hyn yn helpu;

- i greu swyddi lleol a chadw arian lleol yn lleol
- pobl i fyw bywyd da, gan gysylltu gyda'u cymuned a chyfrannu tuag at eu cymuned
- sefydliadau lleol i greu'r amodau lle gall pobl ddilyn eu breuddwydion

Y nod yw i annog pobl i ddod yn ficrofentrau cymunedol sydd:

- efallai â diddordeb mewn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn ond nad oes ganddynt o bosibl unrhyw brofiad

- pobl sy'n gweithio yn y sector gofal ar hyn o bryd ond sydd â diddordeb mewn bod yn bennaeth arnynt eu hunain
- yn cefnogi pobl yn weithredol yn eu cymunedau lleol
- sydd eisiau gwneud rhywbeth sy'n cefnogi pobl eraill ac yn gwneud gwahaniaeth

Mae'r Catalydd Lleol yn gweithio ar hyd a lled Wrecsam gydag unigolion i'w

- cefnogi i ddatblygu eu busnes neu eu syniad
- darparu gwybodaeth am hyfforddiant, cyllid a chefnogaeth ac adnoddau eraill sydd ar gael
- cefnogi unigolion i ddatblygu a darparu gwasanaeth o ansawdd yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol Llywodraeth Cymru
- darparu cysylltiadau i rwydwaith o ddarparwyr micro-ofal cymunedol eraill er mwyn iddynt gefnogi ei gilydd

Mae enghreifftiau o'r gofal a'r gefnogaeth a gynigir yn cynnwys;

- Gofal Personol
- Glanhau
- Garddio
- Golchi dillad
- Siopa
- Cludiant Cymunedol
- Gwasanaeth cyfeillgarwch
- Paratoi bwyd

**Pam eu bod yn bwysig?**

Cydnabyddir yn genedlaethol nad yw gofalwyr yn cael tâl digonol sy'n cyfrannu at yr heriau o ran recriwtio'r gweithlu a chadw gweithwyr o fewn y sector. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar argaeledd gofal (Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad 2022).

Mae yna ddiffygion sylweddol yn yr holl feysydd o ran cefnogaeth i bobl fyw gartref yn Wrecsam. Mae'n bosibl y bydd unigolyn sydd angen gofal personol am y tro cyntaf yn cael ei roi ar restr aros. Yn ddiweddar mae amseroedd aros wedi cynyddu ac mewn rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru mae hyn wedi arwain at unigolion yn gorfod aros mewn cartref gofal preswyl. (Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad).

Mae'r nifer o bobl sydd dros 65 oed yn cynyddu ac mae'r grŵp oed hwn yn fwy tebygol o fod angen gwasanaethau. Yn Wrecsam mae'r nifer o bobl sy'n derbyn gwasanaethau wedi gostwng. Fe all hyn yn rhannol fod gan nad yw'r angen wedi ei ddiwallu, gan fod yna ddiffyg capasiti o ran y gwasanaeth neu anghenion nad ydynt wedi eu nodi (Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022).

Mae disgwyl i'r nifer o bobl sydd angen gwasanaethau cefnogi cymunedol barhau i gynyddu yn Wrecsam wedi ei seilio ar oedran a'r rhai sydd angen cefnogaeth gyda gweithgareddau bywyd bob dydd. (Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022).

**Blaenoriaethau Gwella Wrecsam 2020-2023**

Mae gwaith y Catalyddion Cymunedol yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau Gwella Cynllun Cyngor Wrecsam 2020 - 2023; i ddatblygu a datgarboneiddio'r amgylchedd, datblygu'r economi a hyrwyddo iechyd da a lles.

**Hyrwyddo entrepreneuriaeth leol –** entrepreneuriaid yn darparu gwasanaethau o fewn eu cymunedau lleol yw microfentrau cymunedol. Caiff busnesau eu cefnogi gan Gatalyddion Cymunedol i leoli a thyfu yn Wrecsam, gan ddenu pobl newydd i'r gweithlu gofal.

**Lleihau allyriadau carbon a briodolir i wasanaethau -** Caiff microfentrau cymunedol eu datblygu mewn meysydd lle mae angen gofal fwyaf, ac maent yn cael eu darparu gan breswylwyr lleol. Llai o bellter yn cael ei deithio rhwng ymweliadau cartref i helpu i leihau allyriadau carbon.

**Cynyddu gweithgaredd mewn perthynas ag iechyd da a lles, gwasanaethau atal a chymorth cynnar** – caiff unigolion eu cefnogi i fyw bywydau egnïol, annibynnol o fewn eu cymuned.


**Cynyddu capasiti gofal** – mae hanner yr holl ficrofentrau cymunedol yn cynnig gwasanaethau gofal personol.

# Faint?

## Cynnydd mewn rhifau

Mae'r siart isod yn dangos y cynnydd a wnaed yn y deunaw mis y mae Catalyddion Cymunedol wedi gweithio yn Wrecsam (Ebrill 2021 – Medi 2022).

Siart 1: Y nifer o ficrofentrau cymunedol a sefydlwyd





| | Ebr-21 | Medi-21 | Ion-22 | Maw-22 | Medi-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y darparwyr | 16 | 18 | 28 | 37 | 53 |

*Ffynhonnell: Adroddiadau Grŵp Newid 2021/22 (Catalyddion Cymunedol) Mae'r ffigwr hwn yn eithrio mentrau nad oeddent wedi lansio eto (13); nad oeddent wedi cwblhau'r 'Safonau 'Ei wneud yn iawn' neu a oedd wedi rhoi'r gorau i weithredu (4).*

Mae arsylwadau mewn cyfarfodydd ac adborth gan fentrau'n awgrymu fod Catalyddion Lleol yn gallu darparu ansawdd uchel o gefnogaeth i nifer fechan o unigolion i sefydlu menter. Mae 53 o bobl wedi sefydlu microfentrau cymunedol. Mae'r siart uchod yn dangos fod y cynnig o ran gofal yn Wrecsam yn tyfu ar gyfradd sefydlog ac mae'n awgrymu fod y mentrau newydd sydd yn yr arfaeth wedi eu cynllunio'n dda ac yn cael eu rheoli'n ofalus.


Siart 2: Y nifer o oriau o ofal a chefnogaeth a ddarperir gan ficrofentrau cymunedol




*Ffynhonnell: Adroddiadau Grŵp Newid 2021/22 (Catalyddion Cymunedol)*

Mae Siart 2 yn dangos fod nifer yr oriau o gefnogaeth a ddarperir gan fentrau yn cynyddu'n gyson. Mae cyfradd y twf yn cyd-fynd yn agos â'r nifer o fentrau (Siart 1). Mae hyn yn awgrymu fod mentrau, unwaith maent wedi eu sefydlu, yn dod o hyd i unigolion sydd angen cefnogaeth ac maent yn cefnogi pobl o fewn eu cymuned yn frwd a hynny heb oedi.

Siart 3 Nifer y cleientiaid sy'n cyflogi microfenter gymunedol i'w helpu i fyw'n annibynnol.




*Ffynhonnell: Adroddiadau Grŵp Newid 2021/22 (Catalyddion Cymunedol)*

Erbyn 30 Medi 2022, roedd cyfanswm o 248 o unigolion yn derbyn cefnogaeth gartref gan ficrofentrau cymunedol yn Wrecsam, roedd hanner y rhai hynny'n derbyn gofal personol. Mae gwaith microfentrau cymunedol yn cefnogi CBSW yn uniongyrchol i ddiwallu'r galw cynyddol i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol gartref.

Mae cynnydd yn digwydd ar gyflymdra da, mae'n sefydlog ac yn gyson ar draws yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae'n galonogol fod twf microfentrau'n gyson ac yn cael ei gynnal, gan leihau'r risg o effeithiau sydyn anfwriadol ar y farchnad gofal cymdeithasol lleol.

# Pa mor dda?

## Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn ffordd i bobl dalu am gefnogaeth i fodloni eu hanghenion personol a chymdeithasol. Yn hytrach na bod y gefnogaeth hon yn cael ei darparu gan wasanaethau cymdeithasol, rhoddir yr arian i'r unigolyn ac fe fyddant yn penderfynu ar y gwasanaethau a fydd yn bodloni eu hanghenion. Fe all hyn roi mwy o reolaeth i'r unigolyn dros bwy fydd yn eu helpu nhw a sut y caiff y cymorth ei ddarparu.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn ffactor allweddol yn nhwf microfentrau cymunedol gyda 35% o'r holl Daliadau Uniongyrchol yn cael eu talu i ficrofentrau cymunedol yn

2021/22. Mae ystadegau Taliadau Uniongyrchol blynyddol gan CBSW yn dangos fod microfentrau wedi darparu gofal i werth ariannol o **£121,119** yn ystod 2021/22.

Gan nad yw’r gofal a ddarperir yn cael ei gomisiynu’n uniongyrchol gan y cyngor, roedd yna effaith anfwriadol cadarnhaol i ficrofentrau cymunedol yn dod i mewn i’r farchnad. Mae microfentrau cymunedol yn canolbwyntio ar eu hardal leol eu hunain, nid ydynt yn teithio mor bell ac felly maent yn arbed amser ac arian ar deithio ac mae ganddynt  gostau cyffredinol is. O ganlyniad maent yn codi £4.20 yn llai na darparwr gofal cartref cyffredin.

Mae’r tabl isod yn dangos arbediad cost uniongyrchol o £58,812 yn ystod y flwyddyn.

Tabl 1. Cyfrif o’r arbedion o ran cost drwy ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn erbyn ffioedd gofal a gomisiynir ar gyfer pobl hŷn.

| Cyfnod adrodd | Nifer yr oriau yr wythnos | Ffi a Gomisiynwyd | Ffi Microfenter Gymunedol | Cyfanswm yr arbedion fesul chwarter |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Chwarter 1 | 127 | £2519 | £2049 | £5640 |
| Chwarter 2 | 158 | £3212 | £2549 | £7956 |
| Chwarter 3 | 363 | £7380 | £5855 | £18,300 |
| Chwarter 4 | 534 | £10856 | £8613.42 | £26,916 |
| Cyfanswm | - | - | - | £58,812 |

**Wedi ei gyfrif gan ddefnyddio’r gyfradd gyfartalog a delir gan CBSW ar gyfer gofal personol pobl hŷn (£20.33) **Wedi ei gyfrif gan ddefnyddio’r gyfradd deg y cytunwyd arni ar gyfer microfentrau drwy Daliadau Uniongyrchol (£16.13)*

## Rheoli Newid

Mae’r Grŵp Newid yn cyfarfod bob tri mis i fonitro cynnydd a thrafod meysydd o gynnydd cadarnhaol ac adlewyrchu ar risgiau, materion a heriau. Mae cynrychiolwyr o CBSW gan gynnwys y tîm Taliadau Uniongyrchol, Rheolwr Rhanbarthol Catalyddion Cymunedol a’r catalyddion cymunedol lleol yn mynychu’r grŵp. Caiff microfentrau hefyd eu gwahodd bob hyn a hyn i fynychu cyfarfodydd i rannu eu profiadau ac adlewyrchu ar eu taith cyn belled. Caiff adroddiadau Grŵp Newid manwl eu cyhoeddi cyn y cyfarfod gan gynnwys dangosyddion perfformiad, yr hyn a gyflawnwyd, heriau a gweithgareddau a wnaed.  Canolbwyntir yn gryf ar berfformiad

ac adlewyrchu a thystiolaeth o welliant parhaus, mae'r rhain yn gyfarfodydd cadarnhaol lle caiff ymagwedd o gydweithio ei mabwysiadu i ddatrys problemau.

Dywed darparwyr gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru fod cydnabod a thalu gwir gost gofal yn brif flaenoriaeth iddynt (Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad 2022). Caiff tâl ei gydnabod fel mater cenedlaethol sy'n effeithio ar y gweithlu gofal. Fe gydweithiodd y Cyngor a'r Catalyddion Cymunedol i gytuno ar gyfradd deg o ran tâl.

**Trafod cyfradd deg o ran tâl i ficrofentrau cymunedol**

Er mwyn cefnogi microfentrau cymunedol i sefydlu, gofynnwyd i'r Catalydd Lleol 'Faint ddyliwn i ei godi?'. Fel unig fasnachwr, mae gan fentrau yr ymreolaeth i sefydlu eu cyfradd eu hunain fesul awr. Yn y dechrau roedd microfentrau cymunedol yn codi cyfraddau gwahanol. Trwy waith partneriaeth gyda CBSW, darganfu Catalyddion Cymunedol mai £12.95 yr awr yw'r gyfradd Taliadau Uniongyrchol yn Wrecsam ar gyfer Cynorthwywyr Personol sydd fel arfer yn cael eu cyflogi gan yr unigolyn sydd angen gofal a chefnogaeth. Nid oedd y gyfradd hon yn adlewyrchu'r costau uwch a oedd yn ymwneud â rhedeg menter fel yswiriant, offer, teithio, hyfforddiant a thâl gwyliau.

Fe gynhaliodd Catalyddion Cymunedol ymchwil y farchnad, ymgysylltwyd gyda CBSW a microfentrau cymunedol ac mewn partneriaeth cytunwyd ar gyfradd o £16.13 fel cyfradd deg gan Gyngor Wrecsam. Pwysleisiodd microfentrau cymunedol pa mor ddefnyddiol oedd y cyngor o ran penderfynu faint i'w godi am eu gwasanaethau.

Mae Catalyddion Cymunedol yn rhedeg Rhwydwaith Dysgu ar y Cyd ar gyfer yr holl gomisiynwyr. Cafodd trefniadau taliadau uniongyrchol eu nodi gan aelodau grŵp fel rhwystr i ddatblygu microfentrau cymunedol. Mae cydweithio gyda Wrecsam drwy'r Grŵp Newid wedi lleihau'r rhwystrau hyn ac wedi cyfrannu at lwyddiant y prosiect.

## Gweithgareddau Catalydd Lleol

### Recriwtio

Mae gan Gatalyddion Cymunedol bresenoldeb cryf ar-lein yn lleol, drwy hysbysebu a hyrwyddo ar wefannau eraill yn ogystal â'u cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu hunain gan gynnwys tudalen Facebook gyda negeseuon a rhyngweithio rheolaidd.

Mae adroddiadau'r Grŵp Newid yn darparu manylion ymgysylltu â budd-ddeiliaid a chofnod o'r nifer o entrepreneuriaid a gafodd eu recriwtio drwy gyfarfodydd rhyngweithio. Cysylltwyd â'r budd-ddeiliaid i drafod cydweithio, atgyfeiriadau, cyngor a chefnogaeth ar gyfer entrepreneuriaid posibl. Cafodd dros gant o gyfarfodydd ymgysylltu â budd-ddeiliaid eu cynnal yn ystod y flwyddyn.

### Fideos hyrwyddo

Mae Catalyddion Cymunedol wedi llunio nifer o fideos hyrwyddo i recriwtio mentrau posibl a rhannu'r hyn a ddysgir.

Mae Moya yn siarad am sefydlu menter i gynnig help gartref i bobl hŷn ac anabl.

Mae Dawn a Seema yn siarad am eu profiad o ddarparu a derbyn cefnogaeth a'r hyn maent yn mwynhau ei wneud gyda'i gilydd

Mae Steve Latham White, Swyddog Comisiynu yng Nghyngor Wrecsam, yn rhannu'r hyn mae wedi ei ddysgu o weithio gyda Chatalyddion Cymunedol ac mae'n adlewyrchu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a pham yn Wrecsam.

### Cyfathrebu â budd-ddeiliaid

Drwy gyfarfodydd y Grŵp Newid cafwyd trafodaethau yn ymwneud â risgiau, problemau a heriau a chytunwyd ar nifer o gamau gweithredu gan gynnwys datblygu Cwestiynau Cyffredin ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol a oedd yn atgyfeirio unigolion a oedd angen gofal a chefnogaeth yn uniongyrchol i ficrofentrau cymdeithasol.

**Rhwydweithio Grwpiau Cefnogaeth gan Gyfoedion**

Mae'r Catalydd Lleol yn hwyluso grwpiau cefnogaeth gan gyfoedion yn lleol, gyda chyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal yn y Waun a chanol tref Wrecsam bob mis. Mae yna synnwyr cryf o gymuned yn y cyfarfodydd hyn. Er gwaethaf amserlenni prysur microfentrau cymunedol mae presenoldeb yn y cyfarfodydd wedi bod yn dda. Mae'n gyfle i drafod heriau, problemau a dathlu ac adlewyrchu ar yr hyn a gyflawnwyd. Mae mentrau newydd yn dysgu gan y rhai hynny sydd eisoes wedi sefydlu. Arsylwyd aelodau grŵp wrth iddynt gynnig cefnogaeth a chyngor i'w gilydd i gynnal eu busnesau ar faterion gan gynnwys;

- Trefnu ymweliadau, cynllunio llwybr a gweithio'n lleol i leihau costau a'r amser a gaiff ei dreulio yn teithio
- Cynyddu capasiti yn raddol i osgoi gorflino
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gymheiriaid yn ymwneud â'r gwasanaethau maent yn eu cynnig
- Atgyfeiriadau posibl i ficrofentrau cymunedol eraill
- Defnyddio contractau i reoli problemau

**Cefnogi Microfentrau Cymunedol**

Mae'r gefnogaeth a gaiff ei chynnig gan y Catalydd Lleol yn cynnwys;

- Hyfforddi a chefnogi
- Arweiniad ar sefydlu busnes
- Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a gofynion yswiriant
- Taliadau Uniongyrchol
- Awgrymiadau a chyngor ar farchnata
- Hysbysebu am ddim ar gyfeiriadur Small Good Stuff
- Cymuned ryngweithio a chefnogaeth gan gyfoedion gyda microfentrau eraill
- Cyfeirio at ffynonellau eraill o ran cefnogaeth i fusnesau'n lleol
- Canllawiau contract
- Safonau 'Ei wneud yn iawn'

**Safonau 'Ei wneud yn iawn'**

Mae microfentrau yn unig fasnachwyr; nid ydynt yn ffitio fframwaith reoleiddio Arolygiaeth Gofal Cymru. Er mwyn sicrhau fod microfentrau yn cael eu cefnogi i ddarparu gofal o ansawdd, mae'r Catalydd Lleol yn hyfforddi microfentrau yn ymwneud â'r 'Safonau Ei wneud yn iawn' ac maent yn cefnogi microfentrau i ddiwallu'r safonau. Fe all microfentrau cymunedol ymrwymo i'r safonau hyn yn wirfoddol. Mae'r safonau yn ymdrin â;


- chyfrifoldebau a disgwyliadau microfenter gymunedol
- pa wasanaethau allai/ddylai gael eu cynnig
- dylunio gwasanaeth a chynllunio
- ymddygiad busnes a phersonol
- gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- ymrwymiad i adlewyrchu, dysgu a gwella

# A ydym ni wedi gwneud gwahaniaeth?

## Pa effaith mae microfentrau cymunedol wedi ei gael ar yr unigolion sy'n derbyn gofal?

Fe wnaed arolwg annibynnol gan y Canolbwynt Cydlynu Ymchwil Arloesi ym mis Gorffennaf 2022 (Atodiad 2) o unigolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol. Ymatebodd un deg tri o bobl a oedd yn cael eu cefnogi gan ficrofenter gymunedol.

Mae'r Rhestr Gofal Cymunedol sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (PERCCI), a ddatblygwyd gan Brifysgol Efrog, yn holiadur byr a hawdd i'w gwblhau sy'n mesur profiadau'n ymwneud ag ansawdd gofal. Mae'n adnodd seiliedig ar dystiolaeth, sydd wedi ei ddylunio ar y cyd gyda phobl gyda phrofiad o wasanaethau gofal. Gofynnwyd i ymatebwyr sgorio chwe datganiad yn ymwneud â sut maent yn teimlo ynglŷn â'r bobl neu'r unigolyn sy'n eu cefnogi, a chwe datganiad yn ymwneud â'u gofal yn gyffredinol. Yr atebion posibl oedd Fyth neu anaml, Weithiau, Yn aml neu Bob amser. Caiff sgôr ei gyfrif ar gyfer pob ateb ac mae'n darparu gwaelodlin ac yn dangos p'run ai yw'r gofal a ddarparwyd yn canolbwyntio ar yr unigolyn.




*Ffynhonnell: Sgorau adnodd PERCCI ar Daliadau Uniongyrchol Gorffennaf 2022. Nodiadau: a)Mae 'Arall' yn cynnwys Cynorthwywyr Personol a darparwyr gofal eraill sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol b) Cafodd perthnasau agos 'eraill' a phartneriaid yr unigolyn sy'n derbyn gofal eu heithrio o'r grŵp sampl.*

Mae'r diagram uchod yn dangos fod unigolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol yn derbyn cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o safon uchel. Fe sgoriodd y rhai hynny sy'n cael eu cefnogi gan ficrofenter gymunedol ychydig yn uwch yn yr holl gwestiynau ynglŷn â sut maent yn teimlo ynglŷn â'r unigolyn sy'n eu cefnogi.

**Astudiaethau Achos**

Mae nifer o straeon wedi eu rhannu gan unigolion sy'n derbyn gofal a'r rhai hynny sy'n darparu'r gefnogaeth. Mae'r astudiaeth achos isod yn archwilio effaith gadarnhaol cefnogaeth amserol a hyblyg i fyw'n annibynnol gartref ar ôl cyfnod yn aros yn yr ysbyty.

**Stori Mr B - Rhan 1: Help llaw**

"Mae Mr B yn 83 oed a hyd yn ddiweddar roedd wedi bod yn byw'n annibynnol heb gefnogaeth. Mae'n hoffi tyfu llysiau yn yr ardd, mae ei drefn wythnosol yn cynnwys gyrru i'r siopau ac ymweld â ffrind.

Ar ôl treulio cyfnod yn aros yn yr ysbyty yn ddiweddar nid oedd Mr B yn gallu coginio na gwneud gwaith tŷ ac roedd angen cymorth gyda'i feddyginiaeth. Hefyd fe wnes i ei helpu i gynnal a chadw ei ardd yn ystod y cyfnod hwn.

Wrth i'w iechyd wella, cyfaddefodd Mr B wrthyf ei fod wedi syrthio ac anafu ei wyneb y tro diwethaf iddo fynd i siopa. Roedd yn poeni y byddai hyn yn digwydd eto. Cynigais y gallem ni fynd i siopa gyda'n gilydd, ac fe wnaethom ni hynny sawl tro. I ddechrau roeddwn yn ei ddanfon yn y car ac roedd yn ansefydlog ar ei draed, ond dywedodd ei fod yn teimlo'n fwy hyderus gyda fi yno, ac roedd yn gafael ynof i i ddechrau. Gyda help llaw roedd yn gallu dod i arfer gyda bod allan eto a chafodd hyder i fynd allan ar ei ben ei hun ac mae'n gweithio tuag at ddychwelyd i'w drefn flaenorol.

**Rhan 2 – Darganfyddiad annisgwyl!**

"Yn ystod un o'n teithiau siopa fe brynodd Mr B tsieina ail law a oedd yn hen iawn. Dywedodd wrthyf fod gan ei wraig siop amser maith yn ôl, ac roedd wrth ei fodd o fod wedi darganfod rhan o set. Mae'r tsieina wedi ei osod ar y bwrdd wrth ei ymyl fel y gall ei edmygu.

Dechreuodd Mr B ymchwilio i enw'r patrwm. Tra'n gwella ar ôl bod yn aros yn yr ysbyty gan dreulio mwy o amser y tu mewn, daeth i ganolbwyntio ar hyn ac roedd yn angerddol ynghylch hyn. Gyda chymorth y Catalydd Lleol rwyf wedi llwyddo i gael llechen y gall Mr B ei defnyddio. Drwy'r darganfyddiad hwn mae hefyd wedi ei gyflwyno i fyd technoleg.

Mae'n hyfryd i weld y brwdfrydedd a'r cyffro ar ei wyneb wrth i'r antur hon fynd rhagddi. Mae cael cyswllt ffôn gyda llawer o bobl yn golygu nad yw'n eistedd yn gwylio'r teledu'n ddyddiol mwyach, mae'r ymchwil yn agor rhai cysylltiadau cymdeithasol newydd".

**Pa effaith mae Catalyddion Cymunedol wedi ei gael ar ficrofentrau cymunedol?**

Fe gynhaliodd y Catalyddion Cymunedol arolwg o 39 o bobl yr oedd y Catalydd Lleol yn eu cefnogi. Gofynnwyd i ymatebwyr i sgorio cyfraniad y Catalydd Lleol i ddatblygiad eu menter ar raddfa o 1 -10 (gyda 1 y cyfraniad lleiaf a 10 y mwyaf). Y sgôr cyfartalog oedd 9.5. Mae copi llawn o'r adroddiad wedi ei gynnwys yn yr atodiadau (Atodiad 3).

*"Fe gefais fy rhoi mewn cyswllt â'r Catalydd Lleol ac roeddwn yn ei hoffi ac yn teimlo'n gyfforddus gydag ef ar unwaith. Fe eglurodd y broses o ddod yn hunangyflogedig a'r safonau oedd eu hangen. Yna aethom ati i drefnu cyfres o gyfarfodydd a dechreuodd fy nhaith chwe wythnos. Ar hyd y ffordd, roedd yn gyfathrebwr eithriadol, ac yn amlwg roedd ganddo lawer o wybodaeth ac fe gefnogodd fi ar hyd y ffordd. Mae'r Catalydd Lleol yn parhau i roi cefnogaeth anhygoel fel unigolyn ac fel rhan o Grŵp Microfentrau Cymunedol Wrecsam sydd wedi ei sefydlu ar Whatsapp a thrwy drefnu digwyddiadau sy'n dod â phawb ynghyd yn lleol hefyd. Rydym yn ennill profiad, yn rhannu awgrymiadau a syniadau ac yn cael hwyl. Er yn hunangyflogedig rydym i gyd yn aelodau gwerthfawr o grŵp cymunedol ehangach sy'n amhrisiadwy"*
**Sandra, Dwylo Caredig (microfenter gymunedol)**

## A yw'r canlyniadau a amlinellir yn y contract wedi eu cyflawni?

**Canlyniad 1: Mae'r farchnad gofal cartref yn Wrecsam yn gynaliadwy, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn gallu darparu'r hyn sy'n bwysig i bobl Wrecsam;**

- Mae microfentrau nawr yn cyfrif am 5% o'r farchnad gofal cartref yn Wrecsam, mae hyn yn dangos fod cynnydd yn y cynnig gofal, gyda mwy o ddewis a mwy o unigolion yn cymryd rheolaeth o'u gofal eu hunain drwy Daliadau Uniongyrchol.
- Mae cyfanswm a graddfa'r cynnydd a ddangosir yn y dangosyddion perfformiad allweddol gyda thystiolaeth ansoddol sylweddol yn sail iddynt a ddarperir gan Gatalyddion Cymunedol yn darparu sicrwydd fod unigolion yn

teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'u gofal ac mae'r cynnig yn gynaliadwy i ficrofentrau ei gyflawni.

- Rhoddodd yr arolwg annibynnol sicrwydd o ansawdd y gofal, er fod hwn yn arolwg bach. Nawr fod gan y mentrau ran yn y farchnad ofal, fel cam nesaf fe allai'r Cyngor fod yn dymuno ystyried sut y caiff monitro parhaus ansawdd gofal ei fesur a sut yr adroddir ar hyn.

**Canlyniad 2: Caiff pobl eu cefnogi i fyw bywydau egnïol ac annibynnol o fewn eu cymuned;**

- Mae tystiolaeth ansoddol o arsylwi mewn grwpiau rhwydweithio, astudiaethau achos, gweithdai a'r arolwg annibynnol yn darparu tystiolaeth o'r mathau amrywiol o ofal a chefnogaeth a gaiff eu darparu.
- Mae sgorau PERCCI yn awgrymu fod safon dda o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddarparu i unigolion.

Yng Nglyn Ceiriog, ardal wledig gyda phoblogaeth hŷn, fe roddodd darparwr gofal cartref y gorau i fasnachu a cafodd hynny effaith ar unwaith ar y rhai hynny oedd angen cefnogaeth. Roedd y Catalydd Lleol yn gallu targedu adnoddau i ddatblygu microfentrau cymunedol o fewn y gymuned. Mae un o breswylwyr Glyn Ceiriog yn trafod llwyddiant y prosiect;

*"Mae Catalyddion Cymunedol, yn arbennig y Catalydd Lleol, wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i ardal Wrecsam. Yn fy Nyffryn i nid oes yna unrhyw gefnogaeth gan asiantaethau gofal. Roedd pobl hŷn yn wynebu mynd i ofal preswyl pan roeddent yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r Catalydd Lleol wedi helpu o leiaf 12 o bobl i ddod yn hunangyflogedig fel gofalwyr. Nawr mae tua 15 o bobl yn byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain yn ein cymuned. Ar hyd a lled y Fwrdeistref mae'n rhaid fod yna dros 50 o fentrau newydd, diolch i'r Catalydd Lleol, i gyd yn helpu nifer mwy o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain"*